

9 Avril 2020

Annwyl gydweithwyr,

Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, rydym yn ysgrifennu i ddweud yn syml: diolch yn fawr.

Diolch yn fawr am eich ymdrechion i gadw pobl ein dinas yn ddiogel ac yn dda, am eich gwaith yn diogelu a chynorthwyo ein pobl fwyaf agored i niwed ac am eich gwaith yn cadw'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i fynd wrth i ni wneud popeth y gallwn ni i atal lledaeniad y feirws.

Mae pethau anhygoel wedi eu cyflawni mewn ychydig iawn o wythnosau. Mae stadiwm wedi ei throï'n ysbyty, degau o filoedd o barseli bwyd wedi eu danfon i breswylwyr a phlant ysgol mwyaf agored i niwed ein dinas ac mae gwestai wedi cael eu haddasu at ddibenion gwahanol fel nad oes rhaid i unrhyw un gysgu ar strydoedd ein dinas. Mae graddfa a chyflymder y newid yn syfrdanol i'w gweld. Rydych chi'n gwneud gwaith rhyfeddol.

Ac wrth gwrs, diolch yn fawr i'n staff yn y GIG, sydd wedi bod yn trin a gofalu am bobl sy'n wael gyda'r feirws. Does dim diwedd i'n hedmygedd at eich gwaith. Mae staff y rheng flaen yn cefnogi ein gwasanaeth iechyd trwy ein holl wasanaethau, ac yn fwyaf nodedig, ein gofalwyr, sy'n gweithio yn y cymunedau yn helpu'r bobl fwyaf agored i niwed i ymdopi ag effaith y feirws a'r cyfyngiadau symud. Rydych chi'n gwneud gwaith hanfodol, gwaith sy'n dangos beth yw ystyr bod yn was cyhoeddus. Diolch i'n gweithwyr brys yng Ngwasanaethau'r Heddlu, Tân ac Ambiwlans, i staff y carchardai a'r Gwasanaeth Prawf sy'n cadw ein dinas yn ddiogel ac yn rhoi popeth tuag at yr ymdrech ar y cyd. Ychwanegwch at hyn ein gyrrwyr bws, ein casglwyr gwastraff, ein cludwyr, ein wardeiniaid parc. Mae'r rhestr yn ddiwedd. I bawb sy'n chwarae rhan yn ymateb ein dinas i argyfwng y COVID-19 - rydych chi i gyd yn weithwyr allweddol rhyfeddol ein dinas.

Mae'n glir gweld bod pobl Caerdydd yn meddwl hynny hefyd. Cerddwch ar hyd unrhyw stryd yn y ddinas ac fe welwch enfysau di-rif wedi eu gosod gyda balchder mewn ffenestri. Caiff llythyrau diolch eu hatodi at finiau i'n criwiau casglu gwastraff ar eu teithiau dyddiol. A heno, unwaith eto bydd sŵn y gymeradwyaeth yn atsain trwy Gaerdydd wrth i deuluoedd sefyll yn eu drysau neu eu gerddi blaen yn dweud 'diolch' am yr holl waith rydych chi'n ei wneud. Yna y byddwn ninnau hefyd, yn curo ein dwylo.

Bydd yr wythnosau nesaf yn anodd. Bydd nifer fawr o ddinasyddion yn dibynnu ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'w cadw'n ddiogel ac iach. Caiff llawer o fywydau eu hachub; caiff llawer, yn anffodus, eu colli. Bydd pob bywyd a gollir oherwydd y feirws ofnadwy hwn yn ddolurus i deuluoedd ac i'r cymunedau. Rydym yn gwybod y byddwch chi yno, gyda'r rhai sy'n dioddef eu hawr ddu ac y byddwch chi yno i gynnig cymorth a geiriau o gysur a chydymdeimlad i'r teuluoedd sy'n galaru. Am eich caredigrwydd a'ch tosturi ar yr adegau hyn, diolch i chi.

Mae colli cydweithiwr, aelod o'n tîm, o'n teulu, yn arbennig o boenus. Mae hwn eisoes yn un o'r beichiau trymaf ar nifer ohonom. Rydym yn gwybod bod gweision cyhoeddus ein dinas yn rhoi'r mwyaf y gallant i gadw ein dinasyddion yn ddiogel ac iach. Rydym eisieu i chi wybod ein bod ninnau hefyd yn gwneud popeth y gallwn ni i'ch cadw chi'n ddiogel ac iach.

Dros yr wythnosau nesaf, caiff popeth ei symud i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r argyfwng. Mae ein holl sefydliadau yn ad-drefnu eu gwasanaethau ac yn gwneud popeth y gallant i gefnogi'r GIG yn erbyn y storm sy'n codi. Dyma weithio mewn partneriaeth na welwyd erioed ei fath. Fe ddown ni drwyddi ac fe adferwn. A phan wnawn ni hynny, bydd yr her anferthol o adfer yn gofyn am weithredu mewn partneriaeth i raddau mwy hyd yn oed nag yn ystod yr argyfwng ei hun. Fe atebwn a goresgyn yr argyfwng gyda'n gilydd, ac fe ailadeiladwn gyda'n gilydd.

Rydym yn addo i chi y byddwn yn arwain yr adferiad hwn gyda chydymdeimlad, penderfyniad ac uchelgais. Ond rydym yn credu'n daer bod gennym i gyd, bob un, rôl arwain bwysig i'w chwarae. Dros yr wythnosau a misoedd nesaf, trwy'r argyfwng ac yn ystod y cyfnod adfer, mae pob un ohonoch chi yn arweinydd gwasanaethau cyhoeddus trwy eich gwaith a fydd yn achub bywydau di-rif, yn diogelu ac yn cynorthwyo pobl ein dinas trwy eich angerdd, eich caredigrwydd a'ch sgiliau.

Rydych chi'n gaffaeliaid i'n gwasanaethau cyhoeddus ac i'n dinas wych.

Diolch yn fawr i chi unwaith eto,

Yn gywir,

Councillor Huw Thomas



Chadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Caerdydd a Arweinydd
Cyngor Dinas Caerdydd

Charles Janczewski



Is-Gadeirydd, Bwrdd
Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
a Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro

PCC Alun Michael



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
De Cymru